JCO454b

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 2.15 pm ddydd Iau 18 Medi 2025 yn yr Adeilad Addysgu a Dysgu, Caerfyrddin

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Vanessa Cashmore, Pennaeth Dros Dro, Coleg Sir Gar
Rebecca Doswell, Pennaeth Cynllunio
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Prif Swyddog Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, Pro Is-Ganghellor (Addysg)
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Margaret Williams, Ysgrifennydd

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Deris Williams

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Richard Bills
Dr Tracy Cruickshank
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Rowland Jones
Katrin Shaw
Jennifer Taylor

Cyn y busnes ffurfiol bu sesiwn cynllunio a briffio a gwmpasodd gosod yr olygfa ar gyfer y flwyddyn i ddod gan yr Is-Ganghellor; trafodaeth am Gynllun Strategol newydd PCYDDS dan arweiniad y Prif Swyddog Staff a'r Pennaeth Cynllunio; sesiwn ar ddata myfyrwyr a gyflwynwyd gan y Pro Is-Ganghellor (Addysg); a sesiwn ar gynllunio blynyddol ac ariannol, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol. Hefyd, ystyriodd a chytunodd y Cyngor ar ei archwaeth risg sefydliadol ar gyfer 2025/26.

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 25.73<br>Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwyneira Davies, Geraint Evans, Yr Athro Conny Matera-Rogers, Geraint Roberts, Emlyn Schiavone, Iwan Thomas a Debra Williams. |
| 25.74<br>Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cyngor Gofrestr Buddiannau Iawn 2025/26 (JCO404).<br><br>Nododd y Clerc bod y gofrestr ar ffurf drafft ar hyn o bryd a'i bod yn aros am ddatganiadau gan nifer fach o aelodau. |
| 25.75<br>Cylch gorchwyl a chynllun gwaith | DERBYNIODD y Cyngor ei gylch gorchwyl a chynllun gwaith 2025/26 (JCO405). |
| 25.76<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO357).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Cadeirydd ar y canlynol:<br><br>(a) marwolaethau diweddar tri o gyn gyfeillion a chydweithwyr y Brifysgol dros yr haf. Dr R Brinley Jones, yr Athro John Morgan-Guy a Mr Dai Rogers. Estynnodd gydymdeimladau diffuant i'w teuluoedd;<br><br>(b) Ymddeoliad Dr Andrew Cornish o rôl Pennaeth Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion. Diolchodd iddo am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth i Grŵp PCYDDS. Croesawodd Vanessa Cashmore i'w cyfarfod yn Bennaeth Dros Dro;<br><br>(c) recriwtio aelodau annibynnol newydd. Roedd y Brifysgol wedi penodi Goodson Thomas, cwmni chwilio gweithredol, i gynnal chwiliad am aelodau Cyngor annibynnol. Roedd eu gwaith wedi dechrau ac roedd disgwyl i'r penodiadau cyntaf gael eu cynnal yn ystod wythnos olaf mis Hydref;<br><br>(d) ei bresenoldeb mewn cyfarfod Cadeiryddion Prifysgolion Cymru diweddar. Roedd y brif drafodaeth wedi canolbwyntio ar etholiadau Senedd 2026. Adroddodd hefyd bod AU Ymlaen yn ddiweddar wedi cyhoeddi |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | adroddiad pwysig ar ddyfodol Trefn Lywodraethol AU, a darparwyd y ddolen iddo. Byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yng nghyfarfod mis Hydref |
| 25.77<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO407).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y materion roedd hi wedi'u cwmpasu yn y sesiwn gynllunio. Hefyd, diolchodd i Dr Andrew Cornish a diolchodd i Gadeirydd Bwrdd CSG am yr ofal yr oedd wedi'i roi i'w rôl dros y misoedd diwethaf. Adroddodd ar benodiad Sharron Lusher yn Bro Is-Ganghellor (Addysg Bellach), a fyddai'n hanfodol wrth ddarparu strategaeth y Brifysgol ar gyfer addysg drydyddol ac wrth lunio integreiddiad effeithiol o fewn y Grŵp. |
| 25.78<br>Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO408).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Llywydd Myfyrwyr at:<br><br>(a) Canlyniadau NSS Undeb y Myfyrwyr, gan ddod yn ail yng Nghymru. Cyfeiriodd at y lefelau boddhad ag Undeb y Myfyrwyr a nododd y lefelau boddhad is ymhlith myfyrwyr prentisiaethau. Roedd camau ar waith i ddeall a mynd i'r afael ag unrhyw faterion;<br><br>(b) Y gwaith oedd yn mynd rhagddo o ran Llais y Myfyriwr wrth baratoi ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd Medr; Adroddodd yr Pro Is-Ganghellor (Addysg) y bu trafodaeth yn y Senedd ar y mater hwn;<br><br>(c) y gwaith oedd yn mynd rhagddo i groesawu myfyrwyr newydd a rhai oedd yn dychwelyd. Gwnaed nifer o welliannau i'r broses groesawu, a oedd wedi cynnwys cynyddu darpariaeth mannau cymunedol yng Nghaerfyrddin a symud sgyrsiau cynefino i wahanol wythnosau i leihau gorlwytho myfyrwyr â gwybodaeth. |
| 25.79<br>Adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol ar y safle o ran rheolaeth ariannol ac arian parod.<br><br>Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol ar y broses diwedd blwyddyn. Roedd archwiliad KPMG o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau yn mynd rhagddo. Roedd yr eitemau a oedd yn dal i fod yn weddill yn ymwneud â chyfalafu eitemau gwariant priodol, cyfrifo incwm ffioedd dysgu gohiriedig, adolygu darpariaeth dyledion drwg a'i adolygiad o restrau cyfrifon mantolenni. Roedd incwm wedi lleihau ers y flwyddyn flaenorol (a oedd wedi cynnwys incwm grant y Fargen Ddinesig) ac roedd yn disgwyl y byddai'r Brifysgol yn adrodd gwarged bach. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | |
| 25.80<br>Cynllun Dirprwyo 2025/26 | YSTYRIODD y Cyngor Gynllun Dirprwyo 2025/26, a oedd wedi'i adolygu gan y Clerc (JCO411). Gyda'r eitem hon, cafwyd cyflwyniad byr gan y Clerc am awdurdod wedi'i ddirprwyo.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Gynllun Dirprwyo 2025/26. |
| 25.81<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2025 (JCO412b).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Gofnodion Anghyfyngedig y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2025 (JCO412c). |
| 25.82<br>Cadarnhad blynyddol o lofnodwyr | Cyngor:<br><br>(a) ENDORSED the list of authorised signatories 2025/26 (JCO414).;<br><br>(b) CYMERADWYWYD adnewyddu atwrneiaeth mewn perthynas â'r Prif Swyddog Gweithredu; |
| 25.83<br>Siarter Myfyrwyr 2025/26 | CYMERADWYODD y Cyngor Siarter Myfyrwyr 2025/26 (JCO415). |
| 25.84<br>Cytundeb Perthynas UyM 2025/26 | CYMERADWYODD y Cyngor Gytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr 2025/26 (JCO416). |
| 25.85<br>Athrawiaethau Emeritus | CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Senedd bod ymgynghori ar deitl Athrawon Emeritus y canlynol (JCO417):<br><br>• Yr Athro Peter Charlton<br>• Yr Athro Julia Lockheart<br>• Yr Athro Kathryn Penaluna |
| 25.86<br>Athro Ymarfer | CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Senedd bod Dr Roderick Thomas yn cael ei benodi'n Athro Ymarfer Anrhydeddus (JCO418). |
| 25.87 | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad Gweithredu gan y Cadeirydd (JCO419). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Adroddiad gweithredu gan y Cadeirydd | |
| 25.88<br>Gweithdrefn datgan buddiannau staff | DERBYNIODD y Cyngor gadarnhad o’r weithdrefn datgan buddiannau staff (JCO420). |
| 25.89<br>Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (JCO421). |
| 25.90<br>Datgan Buddiannau | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiannau eraill yn ystod y cyfarfod. |
| 25.91<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26 Tachwedd 2025. |

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45